**Ymweliad â Washington DC, Tachwedd 30 – Rhagfyr 4 2023**

Fel rhan o’r ymweliad hwn, cefais gyfle i gymryd rhan yng Nghynhadledd Arweinwyr Rhyngwladol y Victory Institute, ac yn nigwyddiad blynyddol Outright International, sef OutSummit 2023.

Mae’r Victory Institute yn rhwydwaith rhyngwladol o gynrychiolwyr etholedig LHDTRhC+ – y rhwydwaith mwyaf o’r fath yn y byd. Fel arfer, cynhelir ei gyfarfod blynyddol ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr. Roedd tua 600 o gynrychiolwyr etholedig, ymgeiswyr, ymgyrchwyr a chynghreiriaid yn bresennol yng nghynhadledd 2023, sy’n dyst i dwf a llwyddiant gwaith y rhwydwaith dros nifer o ddegawdau.

Wrth agor yr Uwchgynhadledd ar gyfer Swyddogion Etholedig, a oedd yn rhan o’r Gynhadledd gyffredinol, siaradodd Tammy Baldwin, Aelod lesbiaidd cyntaf Senedd yr Unol Daleithiau, yn rymus am dwf cynrychiolaeth pobl LHDTRhC+ dros nifer o ddegawdau. Mae gwreiddiau’r Victory Institute yn y Rhwydwaith Rhyngwladol o Swyddogion Lesbiaidd a Hoyw (INLGO), a gafodd ei sefydlu ym 1984, pan gyfarfu dwsin o swyddogion etholedig am y tro cyntaf yn San Francisco. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, roedd Tammy Baldwin yn bresennol am y tro cyntaf fel goruchwyliwr sirol (*county supervisor*) ifanc yn Minnesota. Oddeutu deugain mlynedd yn ddiweddarach, rhagwelir y bydd y Seneddwr Baldwin yn dal ei sedd yn gyfforddus yn Senedd yr Unol Daleithiau am y trydydd tro yn yr etholiad a gynhelir eleni. Yn ogystal, amcangyfrifir bod dros 1,000 o swyddogion LHDT+ ledled y byd.

Mae Cynhadledd Arweinwyr Rhyngwladol y Victory Institute, fel unrhyw gasgliad o wleidyddion byd-eang, yn gyfle i drafod y syniadau diweddaraf ar ystod o faterion polisi. Roedd yr agenda eleni’n ymdrin â pholisïau mudo, yn enwedig yng nghyd-destun ymfudwyr a cheiswyr lloches LHDTC+, gofal iechyd sy’n cadarnhau rhywedd ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, yr heriau penodol a wynebir gan gymunedau lleiafrifol LHDTC+, y cynnydd mewn deddfwriaeth wrth-LHDTC+, yr amddiffyniad o hawliau erthylu, a'r frwydr dros gyfiawnder atgenhedlu.

Un o brif amcanion y Victory Institute yw cynyddu cynrychiolaeth pobl LHDTCRh+ mewn swyddi etholedig ledled y byd. Mae'r gronfa gysylltiedig, sef y Victory Fund, yn bwyllgor gweithredu gwleidyddol cofrestredig sy'n darparu cymorth ariannol uniongyrchol i bobl sy'n ymgeisio am rolau etholedig yn yr Unol Daleithiau, a hynny ar sail elfen ddwybleidiol. Mae'r Victory Institute yn darparu hyfforddiant a chymorth mentora i ymgeiswyr, gan ganolbwyntio’n bennaf ar etholiadau domestig ond gan roi ystyriaeth gynyddol i rai rhyngwladol. Wrth inni drafod ffyrdd ymarferol o wella amrywiaeth a chynhwysiant yn ein Llywodraeth genedlaethol a’n hawdurdodau lleol yng Nghymru, a hynny yng nghyd-destun y Biliau diwygio sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, roedd yn ddiddorol gweld sut mae’r Victory Institute yn strwythuro’r cymorth a ddarperir i ymgeiswyr LHDTC+, gan gynnwys sesiynau ar godi arian. Cafwyd sesiwn hefyd ar sut i ymgyrchu mewn modd cynhwysol, gan ymgorffori anghenion iaith amrywiol a sicrhau darpariaeth ar gyfer unigolion ag anableddau. Y prif gysyniad yn y cyd-destun hwn yw bod yn rhaid i gynhwysiant ystyried sut y caiff pobl eu hethol, yn ogystal â phwy gaiff ei ethol.

Gan fod y sefydliad wedi'i leoli yn yr Unol Daleithiau, roedd mwyafrif y cynrychiolwyr yn hanu o'r wlad honno. O ganlyniad, roedd rhan helaeth o'r agenda yn adlewyrchu pryderon Gogledd America yn benodol – er enghraifft, diogelwch gynnau. Un thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg yn ystod trafodaethau'r panel ac yn ystod y sgyrsiau anffurfiol a gafwyd yn y sesiynau rhwydweithio oedd yr etholiad Arlywyddol sydd ar ddod, ynghyd â'r etholiadau ar gyfer y Gyngres a deddfwrfeydd y taleithiau. Roedd y digwyddiad hwn yn ddigwyddiad dwybleidiol, gyda phobl LHDTC+ o'r Blaid Weriniaethol yn bresennol. Serch hynny, bu llawer o drafod am y mentrau gwrth-LHDTC+ sydd wedi dod i'r amlwg ar lefel y taleithiau, o dan arweiniad asgell dde y Blaid Weriniaethol, sy'n cefnogi Donald Trump. Yn aml, mae gan y mentrau hyn bwyslais trwm ar bolisïau sy'n gwrthwynebu hawliau pobl draws. Roedd tipyn o optimistiaeth ynghylch gallu pobl i frwydro yn erbyn yr ymgyrchoedd hyn yng nghyd-destun etholiadol, a hynny yn sgil tystiolaeth bod ymgeiswyr sy'n arddel safbwyntiau gwrth-LHDTC+ yn dioddef canlyniadau gwael. Ymddengys fod ymdrechion i godi pontydd gyda gweriniaethwyr cymedrol – gan gynnwys rhai â chefndir efengylaidd – yn dwyn ffrwyth ar lefel y taleithiau mewn meysydd allweddol. Fodd bynnag, roedd y posibilrwydd o ornest arall rhwng Joe Biden a Donald Trump ym mis Tachwedd yn destun cryn bryder. Yn yr un modd, roedd pryder pobl ynghylch mwyafrif ceidwadol y Goruchaf Lys – sef gwaddol Trump ar ôl ei dymor cyntaf fel Arlywydd – yn nodwedd anochel o'r cefndir i bob trafodaeth. Fel yn achos Roe yn erbyn Wade, a oes posibilrwydd y gallai'r cynnydd a wnaed dros gyfnod o ddegawdau fod ar fin cael ei wrthdroi yn sydyn?

Y tu hwnt i'r Unol Daleithiau, roedd mwy o gynrychiolwyr rhyngwladol nag erioed yn bresennol yn y digwyddiad eleni. Un ohonynt oedd Jerry Buttimer, Llefarydd – neu Cathaoirleach – hoyw-agored cyntaf y Seanad Gwyddelig. Hefyd yn bresennol oedd Malcolm Byrne, Aelod o'r Seanad sy'n cynrychioli plaid Fianna Fáil. Tynnodd Mr Buttimer sylw at y ffaith bod Leo Varadkar, un o'i gyd-Aelodau ym mhlaid Fine Gael, wedi cael ei ailbenodi yn Taoiseach, a hynny fel dyn hoyw-agored. Dywedodd fod hyn yn arwydd o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers i David Norris, gwleidydd hoyw-agored cyntaf Iwerddon, gael ei ethol yn Seneddwr yn 1987.

Clywodd y Gynhadledd hefyd am enghreifftiau pwerus ac ysbrydoledig o ddatblygiadau arloesol ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth pobl LHDTCRh+ sydd wedi dod i'r amlwg yn America Ladin. Enillodd y Gyngreswraig Carolina Giraldo y wobr arloesi (*trailblazer award*) fel y lesbiad gyntaf erioed i gael ei hethol i Dŷ Cynrychiolwyr Colombia yn 2022 - etholiad a welodd nifer yr aelodau LHDTC+ yn y Gyngres yn treblu i chwech. Clywsom hefyd gan Esteban Paulon, cyn-lywydd Ffederasiwn yr Ariannin ar gyfer Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol, a enillodd sedd yng Nghyngres yr Ariannin ym mis Hydref 2023. Bu dathlu mawr ynghylch y datblygiad hwn yn y gymuned LHDTC+ yn yr Ariannin. Fodd bynnag, cafodd y dathliadau hynny eu dofi gan y pryderon a ddaeth i'r amlwg yn sgil ethol Javier Milei, Arlywydd newydd yr Ariannin, sy'n agored am ei homoffobia.

Y tu hwnt i'r rhaglen ffurfiol, bu cyfleoedd i mi sgwrsio â thîm y Victory Institute ynghylch y broses o ehangu ei waith yn Ewrop a'r Gymanwlad, gan greu cysylltiadau, o bosibl, â gwaith Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Buom hefyd yn siarad am sut y gellid cymhwyso gwybodaeth a phrofiad y Victory Institute yng nghyd-destun diwygio ac ehangu'r Senedd, ac

am sut i wneud y mwyaf o’r cyfle y gallai’r broses hon ei chynnig o ran adeiladu democratiaeth amrywiol a chynhwysol yng Nghymru.

Eleni, cynhaliodd Outright International, un o’r sefydliadau mwyaf blaenllaw sy’n ymgyrchu dros gydraddoldeb LHDTRhC+ ledled y byd, ei uwchgynhadledd flynyddol tua’r un amser â digwyddiad y Victoria Institute, gan ddod ag ymgyrchwyr a chynghreiriaid byd-eang at ei gilydd. Felly, cefais gyfle i fynd i rai o’r sesiynau yn y digwyddiad hwnnw, yn ogystal â'r Fforwm Arweinwyr Rhyngwladol.  Ymhlith y prif themâu eleni roedd yr ymdrechion a wneir gan y Rhwydwaith Eiriolaeth ar gyfer Bancio Cynhwysol i sicrhau bod Banc y Byd yn cynnwys hawliau LHDTC+ yn ei bolisïau gwrth-wahaniaethu, ynghyd â sut i frwydro yn erbyn y don o rethreg a deddfwriaeth wrth-draws a welwyd ledled y byd yn 2023.